## .....cyflwyniad

Creadur cochlyd 1-8 milimedr o hyd heb adenydd a chanddo goesau cyhyrog ar gyfer neidio yw'r chwannen aeddfed fel arfer. Gall y chwannen fenyw fyw am ddwy flynedd a dodwy cynifer â 1000 o wyau'n ystod ei bywyd.

## .....a oes chwain gan eich cath?

A fydd eich anifail anwes yn crafu drwy'r amser? Os oes ganddo broblem, mae'n bosibl y gwelwch chi chwain neu faw chwain yn ei ffwr fel nifer o sbeciau bach du'n agos at y croen. Chwain cathod a fydd yn achosi'r rhan fwyaf o'r problemau, yn rhannol, am fod anifeiliaid anwes yn fwy poblogaidd erbyn hyn a hefyd am fod tuedd i bobl beidio â glanhau gwalau eu hanifeiliaid wrth lanhau'r tŷ. Am fod gan lawer o dai garpedi drwyddynt erbyn hyn, bydd cynrhon chwain yn cael cyfle i ddatblygu heb i fawr ddim aflonyddu arnynt.

Er bod y chwain aeddfed yn treulio amser hir yn ffwr y ci neu'r gath, bydd yr wyau'n a'r cynrhon i gyd yn datblygu yng ngwâl a chynefin yr anifail.

Mae chwain yn atgas am eu bod yn cnoi ac am fod y gymdeithas yn dal i ddifrïo pobl sy'n cael eu poeni ganddynt. Gellwch wybod i chi gael eich cnoi os gwelwch gochni ar eich croen a smotyn bach coch tywyll yn ei ganol. Bydd cnoadau'n cymryd diwrnod neu ddau i wella ac yn cosi'n ddifrifol.

## .....rheoli chwain

Gall y Swyddog Difa Pla drin eich adeilad â chyfuniad o wenwyn pryfed a chemegion rheoli twf, a bydd tâl am y gwasanaeth hwnnw. Er mwyn ei helpu, gofynnwn i chi gymryd y camau canlynol:

- trin eich ci neu gath am mai dyna ffynhonnell fwyd y chwain aeddfed a'r unig ffordd o'u rheoli.



02792 (3/04)

- gofyn i'ch milfeddyg sut mae trin chwain.

- glanhau'ch tŷ'n rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau nad oes gan y chwain le i fagu ac yn helpu gryn dipyn tuag at gael gwared ohonynt.

- dodi powdr lladd pryfed yn sach eich sugnwr llwch cyn glanhau lloriau a charpedi, llenni, cadeiriau ac ati. Bydd hyn yn lladd unrhyw chwain sy'n cael eu tynnu gyda'r llwch.

- peidio â defnyddio'ch sugnwr llwch am o leiaf saith niwrnod ar ôl i'r Swyddog Difa Pla drin eich tŷ. Gallai'r driniaeth gymryd ychydig wythnosau i weithio'n llwyr am y bydd chwain aeddfed newydd yn deor o unrhyw wyau sydd ar ôl yn y carped.

Gellwch drin eich adeilad eich hun yn achlysurol â gwenwyn pryfed a gymeradwywyd ar gyfer ei ddefnyddio gan amaturiaid. Dylai fod cyfarwyddiadau eglur ar y label ar gyfer defnyddio'r plaladdwr – byddwch yn gyfrifol a'u dilyn yn ofalus.

**Taflenni eraill yn y gyfres hon:**

| | | |
|---|---|---|
| 1 Chwain | 7 Mosgitos | 13 Chwilod Duon |
| 2 Llygod Ffrengig | 8 Colomennod | 14 Pŷcs |
| 3 Llygod | 9 Gwylanod | 15 Chwilod Carpedi |
| 4 Morgrug | 10 Gwiwerod | 16 Clêr |
| 5 Cacwn Meirch | 11 Cadnoid | |
| 6 Gwenyn | 12 Llau Llyfrau (Psocids) | |


Ein rhif cysylltu:

**01446 709105**

Ein cyfeiriad:

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli,
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

ebost: regserv@valeofglamorgan.gov.uk


www.valeofglamorgan.gov.uk


...gair o gyngor oddi wrth Wasanaeth Difa Pla Cyngor Bro Morgannwg...

# fleas!

an advice note from your Pest Control Service

No. 1 in the series



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk

## .....introduction

Adult fleas are normally 1-8mm long, brownish in colour, with no wings but muscular legs adapted for jumping. The potential life span of a female flea is two years, during which time she can lay up to 1000 eggs.

## .....does your pet have fleas?

Is your pet constantly scratching? If it is fleas, you may see them, or their droppings on their coat - small black specks in clusters next to the skin. The cat flea causes the majority of flea infections, partly explained by the increased number of pets being kept and the tendency for their beds to be neglected during cleaning. Wall to wall carpeting also provides a relatively undisturbed environment for flea larvae to develop.

Whilst adults spend a long time on cats and dogs, all the eggs and larvae stages take place in the pet's environment.

Fleas are objectionable because of the bites they inflict and because of the social stigma attached to humans with flea infestations. Flea bites are identified as a tiny dark red spot surrounded by a reddened area. The intensely irritating bite persists for one or two days.

## .....control

The Pest Control Officer can treat your premises using a combination of insecticides and growth regulators. There is a charge for treatment. In order to assist in this process, however, you should carry out the following:

- the adult flea feeds on its animal host [normally a cat or dog]. The host animal must be treated to control the adult flea.

- consult a veterinary surgeon for treatment methods.

- ensure your premises are cleaned on a regular basis. This will deny the flea their breeding site and so make an important contribution towards their control.

- placing insect powder into your vacuum bag before vacuuming the floor and soft furnishings. This will kill any fleas vacuumed.

- after the Pest Control Officer has carried out the treatment of your premises do not vacuum for at least seven days. The treatment may take a few weeks to be entirely successful, as new adult fleas will hatch from eggs left in carpets.

You can carry out your own spot treatments of your premises using an amateur approved insecticide. Directions on how to apply pesticides should be clearly shown on the product label - use them responsibly.



02792 (3/04)

**Other leaflets available in this series:**

1 Fleas
2 Rats
3 Mice
4 Ants
5 Wasps
6 Bees
7 Mosquitos
8 Pigeons
9 Seagulls
10 Squirrels
11 Foxes
12 Booklice (Psocids)
13 Cockroaches
14 Bedbugs
15 Carpet Beetles
16 Flies


**Our contact number:**

**01446 709105**

**Our address:**

Legal & Regulatory Services,
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU

Our email: regserv@valeofglamorgan.gov.uk


www.valeofglamorgan.gov.uk


...an advice note from the Pest Control Service at the Vale of Glamorgan Council...

Gair o gyngor oddi wrth eich Gwasanaeth Difa Pla

Rhif 1 yn y gyfres

# chwain!



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk